

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 06.11.01 i'w hateb ar 20.11.01

R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei rôl fel cydlynnydd materion trawsbynciol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14036) **W**
2. **Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â llywodraeth y DU a'r cyrff datganoledig eraill ynghylch y penderfyniad i wneud cannabis yn gyffur categori C. (OAQ14010)
3. **Elin Jones (Ceredigion);** Pa gamau a gymerwyd i wireddu'r ymrywmiadau yng nghynlluniau strategol y Cynulliad i greu swyddi. (OAQ14011)
4. **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad yn egluro rôl Is-bwyllgorau'r Cabinet wrth ddatblygu polisiau. (OAQ14019)
5. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y mae'r Prif Weinidog yn cydlynu polisiau iechyd, economaidd, addysg a thrafnidiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn arbennig mewn perthynas â chymunedau gwledig a diogelu'r Gymraeg. (OAQ14035)
6. **Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod pob Sefydliad Ewropeaidd perthnasol yn ystyried anghenion Cymru. (OAQ14017)
7. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau trafodaeth briodol rhwng Gweinidogion ei Lywodraeth a'r gwahanol bartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus. (OAQ14029)
8. **Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff ddatganiad ar y camau a gymerwyd i ddod â llywodraeth yn nes at bobl Cymru. (OAQ14033)
9. **Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i wella delwedd Cymru dramor yn ystod y misoedd diwethaf. (OAQ14012)

10. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin)**; A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba bryd y cawsoch gyfarfod ddiwethaf ag arweinwyr TUC Cymru i drafod pob sector yn economi Cymru. (OAQ14037) **W**

11. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**; Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch blaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn y sesiwn Seneddol nesaf. (OAQ14027)

12. **Helen Mary Jones (Llanelli)**; Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch mesurau ychwanegol posibl yn rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth. (OAQ14032)

13. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**; Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn sicrhau bod sylwadau pobl Cymru ar ddatblygu polisïau yn gyffredinol yn cael eu hystyried. (OAQ14013)

14. **Gwenda Thomas (Castell-nedd)**; Pa fanteision a ddaw i Gymru yn sgil ailfeithrin cysylltiadau â Phatagonia. (OAQ14018)

15. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**; A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y rhesymau am yr oedi wrth roi polisïau newydd y Cabinet ar waith. (OAQ14016)